# CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Ebrill1, 2025 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Ywain Myfyr (Maer)
Y Cynghorydd Bob Gunton (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr John Cadwaladr, Jo Checkley, Sion Edwards, Peter Jones, Dyfrig Siencyn, Ray Peters, Heilyn Williams
Mr Rhys Williams – Clerc

**C.1.2025-2026 SESIWN CYHOEDDUS**

Annabel a Penny yn cynrychioli Pwyllgor Carnifal Dolgellau fel sylwebydd am gyfnod o'r Cyfarfod: Derbyniwyd diweddariad ar drefniadau Carnifal y dref eleni.

PCSO Gareth Jones, Heddlu Gogledd Cymru am gyfnod o'r cyfarfod:
Derbyniwyd diweddariad o'r nifer o ddigwyddiadau cyfredol yn y dref. (191) am y cyfnod 2024-2025. Blaenoriaeth wedi ei osod ar gyfer yr heddlu i sicrhau presenoldeb amlwg i'r cyhoedd yn yr ardal ac ymchwiliad i ddigwyddiad cyfredol yn y sgwâr yn ddiweddar. Bydd presenoldeb swyddogion PCSO yn parhau yn y dref. Cynllun CCTV yn gweithio yn dda gyda chynllun i'w ymestyn i ardaloedd oddi amgylch Tafarn y Stag, Stryd Plas yn y dref ac o bosib gwaelod y Bont Fawr.

**C.2.2025-2026 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Y Cynghorwyr Branwen Rhys Dafydd, Jessica John a Llinos Rowlands.

**C.3.2025-2026 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

**C.4.2025-2026 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR FAWRTH 4, 2025**

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod.

**C.5.2025-2026 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**1.1 MATERION A GODWYD O GOFNODION BLAENOROL**

1. **Coed Ffynnon Fair**
   **Cyflwynwyd**: Y Clerc wedi gohebu gyda chwmni yswiriant y Cyngor ynghylch a'r achos yma o safbwynt y posibilrwydd o gyflwyno cais iawndal. Nad yw'r achos yn gymwys.
   **Penderfynwyd:**. Y clerc hefyd i atgoffa'r contractwr Richard Britland i gyflwyno prisiau ar gyfer gwaith pellach ar y safle, megis gatiau a pholyn newydd ac i drefnu cyfarfod safle i symud hyn ymlaen. Cyfarfod safle i'w gynnal ar 03.04.2025.

2. **Gofeb Barhaol - Llyn Penmaen**
   **Cyflwynwyd:** Adborth ysgrifenedig gan y Cynghorydd Nia Evans yn adrodd bod trafodaethau gyda'r Parc Cenedlaethol yn parhau a bod gohebiaeth bellach i ddilyn oddi wrth y Parc Cenedlaethol
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth gyda diolch.

3. **Problemau Parcio rhwng banc HSBC a Siop Hosbis yn y Sgwâr**
   **Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
   Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

4. **Rhaglen Ymrwymiad Cymunedol**
   **Cyflwynwyd: Diweddariad ar bwynt gweithredu o gyfarfod mis Hydref 2023 y Cyngor megis:**

i) **Trefnu ymchwiliad i sefydlu Bwrdd Arddangos penodol i'r Cyngor:**
**Cyflwynwyd:** Dyfynbris wedi ei dderbyn a chadarnhau yng nghyfarfod mis Chwefror 2025 y Cyngor. Cais am gyngor o flaen llaw cais cynllunio (os bydd angen) nawr wedi ei gyflwyno i sylw y Parc Cenedlaethol. Y Clerc i gysylltu gyda'r Parc i gadarnhau nad yw yn adeilad rhestredig.
Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

**Materion pellach yn codi:**

ii) **Parc Sglefrolio**
Dim i'w adrodd ar y funud.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

iii) **Seti Cyhoeddus – adolygiad**
**Cyflwynwyd:** Adroddiad gan y Maer ar argymelliadau o safleoedd i sefydlu'r 5 mainc newydd.
**Penderfynwyd:** Derbyn y cynllun ac i symud ymlaen gyda'r gwaith yma. Bydd costau pellach ar gyfer sefydlu'r meinciau yn ddiogel drwy waith y contractwr RW Britland. **Cytunwyd hefyd** i ariannu man waith ail-beintio ar gyfer rhai meinciau pellach oddi amgylch y dref.

iv) **Trwydded Adloniant Cyhoeddus i'r Sgwâr**
**Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

v) **Cerbyd yn y Lawnt**
Dim adroddiad pellach wrth law. Cyfarfodydd pellach i ddilyn.
**Penderfynwyd**: Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i gadw sylw.

vi) **Cynllun adfywio canol tref Dolgellau**
**Cyflwynwyd**: Cadarnhad bydd trafodaethau / cyfarfodydd pellach i ddilyn.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

vii) **Goleuadau Nadolig 2025**
**Cyflwynwyd:** Adroddiad gan y Cynghorydd Bob Gunton ar syniadau pellach ar gyfer 2025 gan gynnwys newidiadau oddi amgylch y palmant waelod o dan Tŷ Siamas, datblygiad pellach ar hyn ar y funud. Trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd yn parhau
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

**C.6.2025-2026 SEFYLLFA ARIANNOL**

Derbyniwyd a chadarnhawyd y sefyllfa ariannol oddi wrth y Clerc.
Y Cynghorydd Bob Gunton wedi mynychu cwrs yn ddiweddar parthed cyllideb Cynghorau Cymuned a Thref a rheolaethau ariannol a materion

rheoli cyffredinol. Ymdrechion derbyn cadarnhau mandate banc newydd yn parhau.

**C.7.2025-2026 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU**

**1. Adroddiadau aelodau'r Cyngor Tref**

i) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr –** Adroddiad Ysgrifenedig i ddilyn

ii) **Y Cynghorydd Bob Gunton** – wedi mynychu cwrs hyfforddi ar bioamrywiaeth. Yn awgrymu sefydlu grŵp / is - bwyllgor lleol i symud y mater yma ymlaen. Yn cynnig trafodaeth gyda'r Grŵp Partneriaeth y syniad o sefydlu Cystadleuaeth Leol 'Cymru mewn Blodau'
**Penderfynwyd**: Cytuno i hyn. Y Cynghorydd Bob Gunton i arwain.

iii) **Y Cynghorydd Jo Checkley –** cynllun ynni lleol i'r dref bellach yn ôl ar yr agenda (Hydro). Y Cynghorydd Jo Checkley i anfon manylion perthnasol i'r Clerc parthed posibilrwydd o drefnu cyfarfod lleol.
**Awdurdodwyd** y Cynghorydd Jo Checkley i dderbyn prisiau ar gyfer polion fflagiau newydd.

iv) **Y Cynghorydd Ray Peters –** wedi mynychu cwrs hyfforddi ar fioamrywiaeth.

v) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** – gwaith ynghlwm a chynllun 'Lle yn y Dref'. Materion yn ymwneud a chwynion parcio yn ardal Pencefn.

vi) **Y Cynghorydd Sion Edwards** – cystadlaethau a digwyddiadau llwyddiannus wedi cymryd lle yng Ngholeg Meirion / Dwyfor yn ddiweddar.

vii) **Y Cynghorydd Peter Jones** – wedi derbyn ymholiad oddi wrth drigolyn a oes unrhyw drefniadau i ddathlu 80 mlynedd o ddigwyddiad 'VE Day' yn Ewrop?
**Penderfynwyd:** I'r Clerc gysylltu â'r Pwyllgor Carnifal.
Hefyd, sylw ar gymal cynllunio erthygl 4 newydd?
**Penderfynwyd**: I'r Clerc gysylltu â'r Parc Cenedlaethol parthed y mater, gan efallai drefnu cyfarfod ar y mater yma.

**C.8.2025-2026 ADRODDIADAU CYNGHORWYR GWYNEDD SIROL**

**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn –** wedi ymwneud a nifer o faterion parcio.
**Cyfarfod Llawn o Gyngor Gwynedd** ar 03.04.2025. Teyrnged i'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas.

**C.9.2025-2026 GOHEBIAETH**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:

1. Pwyllgor Carnifal Dolgellau 2025 – cais am gyfraniad ariannol.

   **Penderfynwyd:** Cyfrannu £500 tuag at yr achos.

**C.10.2025-2026 MATERION CYNLLUNIO**

**PASTE**